



## 640 O mor ddymunol yw cael cwrdd

O mor ddymunol yw cael cwrdd  
 âm hoff Anwylyd wrth ei fwrdd,  
 ymlonni yn el gariad llawn  
 a thawel orffwys ar yr Iawn.

Mae'r fath hawddgarwch yn ei bryd,  
 gwledd felys yw, na w'yr y byd:  
 fy nefoedd yw bod ger ei fron  
 yn siriol wedd ei w'yneb llon.

Ymrwymiad adnewyddol yw  
 i rodio a bodloni Duw,  
 a phrawf o gariad Brenin nef,  
 ei ddoniau a'i ffyddlondeb ef.

Y cof o'i angau ef a'i ras  
 farweiddia'n llwyr fy mhechod cas;  
 myfyrio loes Iachawdwr byd  
 a wywa'r llygredd oll i gyd.

ERYRON GWYLLT WALIA, 1803-70

## 641 Ar ddydd ein bedydd gwnaethpwyd ni

Ar ddydd ein bedydd gwnaethpwyd ni  
 yn rhan o deulu dinas Duw;  
 croesawyd ni i gorlan Crist,  
 ac ef yw'n Bugail da a'n llyw.

Ar ddydd ein bedydd galwyd ni  
 yn blant y Tad a'i gariad ef,  
 aelodau byw am byth i Grist  
 ac etifeddion teyrnas nef.

Ar ddydd ein bedydd rhwymwyd ni  
 i gefnu ar bob drwg a chas,  
 i gredu yn y Drindod Iau  
 a dilyn llwybrau union gras.

Ar ddydd ein bedydd enwyd ni  
 a rhoddwyd arnom lun y groes;  
 o dan ei faner milwyr ym  
 dros deyrnas Iesu ddyddiau'n hoes.


Ar ddydd ein bedydd golchwyd ni  
 o'r pechod oesol sydd mewn dyn,  
 ac impiwyd ni mewn gobaith gwir  
 ym mywyd newydd Crist ei hun.

Ar ddydd ein bedydd plannwyd ni  
 yn nyffryn teg y dyfroedd byw:  
 boed inni dyfu yno'n ir  
 a ffrwytho'n bér er clod i Dduw.

R GLYNDWR WILLIAMS  
 Hefyd MELCOMBE, 254

**430 DINIWEIDRWYDD** M10 / 87.87.D.

ALAW GYMREIG

**545 ELLERS** M19 / 10.10.10.10

E.J. HOPKINS, 1818-1901

The first system of musical notation for 'ELLERS' consists of two staves. The upper staff is in treble clef and the lower staff is in bass clef. Both are in the key of D major (one sharp) and 4/4 time. The melody in the upper staff begins with a half note D4, followed by quarter notes E4, F#4, G4, A4, B4, C5, and D5. The bass line consists of quarter notes D3, E3, F#3, G3, A3, B3, and C4.

**662 Ymgrymwn, Arglwydd, ger dy allor lân**

Ymgrymwn, Arglwydd, ger dy allor lân  
i ddeisyf bendith ar yr oedfa hon;  
O tyred atom yn dy fedydd tân  
i buro'n natur a chynhesu'n bron.

Datguddia inni werth ysbrydol dras  
wrth gydaddoli'n deulu yn gytûn;  
ein deisyfiadau clyw, pâr deimlo'r ias  
syn brawf o'th bresenoldeb di dy hun.

Yn nŵr y bedydd gwelwn ddarlun byw  
o galon Tad a'i feddwl am ei blant  
a'r ffynnon o drugaredd sydd yn Nuw  
a'i dyfroedd iach yn disychedu'r sant.

Doed gras ein Harglwydd Iesu Grist yn hael  
a chariad Duw I'n plith drwy'r ordinhad,  
a doed yr Ysbryd Glân i gannu'r gwael,  
y Tri yn Un i'n hawlio'n ddinacâd.

D. HUGHES JONES

## 552 TROYTE

A.H.D. TROYTE, 1811-57

The musical score for '552 TROYTE' consists of two systems of music. Each system has a treble clef staff on top and a bass clef staff on the bottom. The key signature has two flats (B-flat and E-flat), and the time signature is common time (C). The music is written in a style typical of 19th-century hymnals, with block chords and simple melodic lines. The first system has six measures, and the second system also has six measures. The music is arranged in a simple, homophonic texture.

## 669 Mawr yw y wyrth

Mawr yw y wyrth; | y mae | rhin ||  
i'r enaid yn y | rhannu | cyfrin; ||  
briwiau ei gorff yw'r | bara a'r | gwin ||  
a roed mor | anghy- | ffreidin. ||

Hon yw'r rhodd | inni a | roddwyd; ||  
o'r cnawd hwn daw'r cnwd | hael : gynae- | afwyd; ||  
gwaed yr | archoll a | gollwyd, ||  
Brenin y boen, | bara: ein | bwyd. ||

Diolch a | wnawn yn | dawel ||  
am ein rhan, yma'n | rhinwedd | dirgel: |  
y dorth, y gwaed, y | wyrth | gêl; ||  
yn y naws, | plygwn yn | isel. ||

Gwnewch hyn er cof, | dyna'r | cofio ||  
yn falm ar | fwrdd : y cy- | lmuno; ||  
yn y wledd | rhown fawl | iddo, ||  
trwy ei waed cawn | fywyd | dro. ||

JAMES NICHOLAS